# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# TROSOLWG A CHRAFFU
# GWYNEDD
# 2014-2015

*Effaith Trosolwg a Chraffu ar fywyd yng Ngwynedd*

## A. Pwyllgor Craffu Corfforaethol

Cadeirydd: Cynghorydd Dyfrig Jones
Is-gadeirydd: Cynghorydd Jason Humphries

**Cylch Gorchwyl**

- Strategaeth Gorfforaethol
- Partneriaethau
- Ymgysylltu
- Trawsnewid Busnes
- Effeithlonrwydd Gwasanaethau
- Gwasanaethau Yfory
- Cytundeb Canlyniadau
- Gweithlu
- Gofal Cwsmer
- Hawl Galw i Mewn ar faterion y Pwyllgor Archwilio

### 1. Ymchwiliadau Craffu

Ni fu Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn hon, yn hytrach bu i'r aelodau ganolbwyntio ar fonitro cynnydd ar yr ymchwiliadau a gynhaliwyd, ac ar weithredu dull effeithiol o adnabod eitemau priodol i'w craffu mewn pwyllgorau.

### 2. Gwaith y Pwyllgor

Nodir isod y materion sydd wedi eu trafod yn y pum cyfarfod pwyllgor gynhaliwyd yn ystod 2014/15

<table>
<tr><td>AP1 <u>Gwynedd Amdani/ Caffael Ynni yn Rhatach</u></td></tr>
<tr><td><u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Ystyriwyd adroddiadau gan yr Aelod Cabinet Adnoddau yn cyflwyno diweddariadau o gynlluniau'r Cyngor i arwain ar drefniant i gaffael ynni yn rhatach ar gyfer cymunedau'r Sir, ac i hwyluso a hyrwyddo'r cynllun Cyd-Gymru â'r buddiannau ynghlwm ag ef i drigolion y Sir.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynllun ar fwy nag un achlysur, gan dderbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet ym mis Ionawr 2015 pan oedd y sefyllfa yn fwy clir am y cynllun, a'r effaith posib ar drigolion Gwynedd.</td></tr>
<tr><td><u>Argymhellion</u><br>Yn wreiddiol, gofynnwyd i'r Aelod Cabinet:<ul><li>Ystyried pryder yr aelodau gyda'r diffyg symud ymlaen ar y mater hwn gan ystyried cysylltu gyda chynghorau eraill sy'n rhedeg cynlluniau llwyddiannus i ddysgu gwersi.</li><li>Edrych ar y pryderon ynglŷn â chynllun Cyd-Gymru</li><li>Ystyried ffyrdd o gyfeirio mwy o bobl at y cynllun Cyd-Gymru fel ffordd o'i wella, gan ddefnyddio gwefan y Cyngor a Newyddion Gwynedd i wneud hynny</li><li>Edrych ar y posibilrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu sefydlu a rhedeg ei gynllun ei hun, gan ystyried goblygiadau o ran adnoddau.</li></ul>Yn dilyn derbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet, gofynnwyd iddo ystyried:<ul><li>Sut orau i hysbysebu'r cynllun ac i gyrraedd y cymunedau sydd fwyaf ei angen ee drwy'r cymdeithasau tai?</li><li>sut y gellir sicrhau safon y gwasanaeth a gynigir gan y cyflenwyr ynni newydd.</li></ul></td></tr>
<tr><td><u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Gwella sefyllfa pobl Gwynedd wrth roi'r cyfle iddynt gaffael ynni yn rhatach.</td></tr>
</table>

| **AP2 Meddylfryd Systemau** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Ystyriwyd pa mor llwyddiannus fu cyflwyno system meddylfryd systemau yn y Cyngor hyd yma ac oes newidiadau wedi eu gwneud er budd pobl Gwynedd?<br>Derbyniwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn ateb cwestiynau am yr uchod, ynghyd â chynlluniau i ymgorffori'r drefn drwy'r Cyngor yn y dyfodol gan sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol ac yn gweithredu er budd trigolion Gwynedd. |
| Argymhellion<br>Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet:<br>• Gyflwyno data monitro cynnydd ar lwyddiant y ddau faes peilot a gynhaliwyd i'r pwyllgor i ddangos fod gwahaniaeth wedi ei gyflawni yn y gwasanaethau<br>• Ceisio sicrhau fod pobl yn glir am y berthynas rhwng Meddylfryd Systemau a Ffordd Gwynedd, gan mai gwella pethau er budd pobl Gwynedd yw bwriad y ddau<br>• Ystyried yr angen i reoli risg, perchnogi problemau aml-adrannol a sicrhau rhaeadru'r newid diwylliant trwy'r Cyngor, gan gyflwyno amserlen ar gyfer cyflawni hyn. |
| Effaith Disgwyliedig<br>Mae'n glir mai trigolion Gwynedd sydd i fod yn ganolog i bopeth sy'n cael ei wneud. Wrth brysuro ymlaen i ymgorffori'r drefn drwy holl wasanaethau'r Cyngor, bydd yn gwella gwasanaethau i drigolion Gwynedd mewn cyfnod ariannol heriol. |

| **AP3 Trefniadau craffu ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Mộn** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Ystyried cyfeiriad i ddatblygu trefniadau i graffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn ar y cyd. Argymell y ffordd orau ymlaen i sicrhau sefydlu trefniadau llywodraethu cywir.<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan Uwch Reolwr Partneriaethau (Gwynedd a Mộn) yn manylu ar y camau cychwynnol yn nhaith trawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ynghyd a'r camau nesaf i ddatblygu trefniadau craffu effeithiol gan aelodau etholedig i waith y Bwrdd. |
| Argymhellion<br>Yn dilyn ymgynghori pellach y tu allan i'r Pwyllgor, ynghyd ag ystyriaeth mewn dau gyfarfod o'r Pwyllgor, gwnaed yr argymhellion canlynol i'r tÎm datblygu trefniadau craffu :<br>• Y dylid sefydlu panel craffu ar y cyd (Gwynedd a Môn)<br>• Bod angen sicrhau aelodaeth cywir, gan wneud yn siŵr fod aelodau'r panel yn annibynnol ac wedi eu hyfforddi i ymgymryd â'r rôl<br>• Bod angen sicrhau trefniadau atebolrwydd ac adrodd clir i Wynedd cyn symud ymlaen gyda'r trefniadau terfynol |
| Effaith Disgwyliedig<br>Trwy graffu a monitro perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar eu Cynlluniau Busnes, byddwn yn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i drigolion Gwynedd am eu cynlluniau gwaith blynyddol. Yn benodol, mae sefydlu'r trefniadau cywir i alluogi i hyn ddigwydd yn effeithiol yn gam cyntaf ar y daith hon. |

| **AP4 <u>Diweddariad i'r Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy</u>** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br>Cynhaliwyd ymchwiliad craffu i Gaffael Cynaliadwy yn 2013/14, er mwyn sicrhau gwella perfformiad caffael y Cyngor a chyfrannu at nod y Cyngor o gadw'r budd yn lleol trwy warchod a chreu swyddi ar gyfer pobl Gwynedd a galluogi mwy o fusnesau lleol i fod yn gystadleuol ac i oroesi. Derbyniwyd diweddariad gan yr Aelod Cabinet yn adrodd ar y trefniadau newydd o gaffael ar sail categorïau gwariant yn hytrach na'r drefn gyfredol o gaffael fesul adran. |
| <u>Argymhellion</u><br>• Sicrhau canlyniadau heriol ar gyfer 2014-17 gan osod uchelgais i'r perwyl hwn<br>• Gweithredu ar y strategaeth gan adrodd nol i'r Pwyllgor maes o law ar ei lwyddiant |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Gweithredu yn fwy effeithiol wrth gaffael ar sail categorïau gwariant er mwyn dod a budd i drigolion Gwynedd. |

| **AP5 <u>Cynigion Strategaeth Arbedion effeithlonrwydd</u>** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br>Penderfynwyd sefyldu gweithgor o blith yr holl Aelodau craffu, gan gyfarfod nifer o weithiau i drafod yr holl gynlluniau arbedion effeithlonrwydd mewn manylder gan geisio asesu eu heffaith ar drigolion Gwynedd. Gan gofio mai arbedion effeithlonrwydd / rheoli'r galw oedd dan sylw, roedd disgwyl i effaith ar ganlyniadau i drigolion fod yn llai na'r hyn y byddwn yn ei weld mewn unrhyw gyfundrefn doriadau.<br>Cyflwynwyd yr holl argymhellion i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol eu hystyried cyn cyflwyno'r argymhellion terfynol isod i'r Aelod Cabinet |
| <u>Argymhellion</u><br>Nodwyd yr argymhellion canlynol ar gyfer cynlluniau i'w gweithredu yn 2015/16. (Noder fod argymhellion pellach hefyd wedi eu cyflwyno ar gyfer cynlluniau i'w gweithredu yn y flwyddyn ariannol ganlynol, gyda gwaith craffu pellach i ddod ar y cynlluniau hynny. Nid yw'r manylion hynny wedi eu cynnwys isod).<br>**C25 - Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau –** Bu i'r Pwyllgor ystyried yr arbediad mewn manylder gan roi ystyriaeth fanwl i effaith bosib' y cynnig. Roedd yr aelodau'n pryderu'n gyffredinol na chyflawnwyd digon o werthuso o ran y risg ac na ystyriwyd yr agweddau ymarferol yn ddigon manwl. Yn hytrach nag adweithio ar ol i bethau fynd o'u lle, gwell fyddai ceisio osgoi sefyllfa o'r fath yn y lle cyntaf.<br>**PB1 – Caffael -** Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng arbed arian a chadw'r budd yn lleol.<br>**P6 - Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd -** Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt graffu'r effaith ymhellach, ond ar y ddealltwriaeth y bydd angen penderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015.<br>**P7 - Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor -** Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt graffu'r effaith ymhellach, ond ar y ddealltwriaeth y bydd angen enderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015**.** |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Ystyried effaith ar y cynlluniau penodol uchod mewn mwy o fanylder er mwyn sicrhau cyn lleied â phosib o effaith ar drigolion Gwynedd. |

| **AP6** <u>**Strategaeth Ymgysylltu**</u> |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br>Yn gyson ym maes gwaith y Pwyllgor hwn, gwelir fod materion yn dod gerbron yn aml oherwydd datblygiadau cyson. Roedd y Pwyllgor yn dymuno craffu cynnydd ar y Strategaeth Ymgysylltu yn dilyn iddynt ystyried y mater yn Medi 2013. Cwestiwynwyd yr Aelod Cabinet ynghylch uchelgais y Strategaeth Ymgysylltu, yn arbennig yn wyneb yr her ariannol cynyddol. |
| <u>Argymhellion</u><br>• Fod angen i'r uchelgais ar gyfer gwella ymgysylltu fod yn realistig yn wyneb yr her ariannol newydd y mae'r Cyngor yn ei wynebu.<br>• Yr angen am fwy o ymgysylltu'n lleol a gwell ymgysylltu yn wyneb y toriadau sydd ar y gorwel.<br>• Yr angen i gysoni y pwyslais a roddir gan wahanol adrannau ar ymgysylltu.<br>• Ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor wneud popeth o fewn ei allu i wireddu gofynion y strategaeth, gan fod yn realistic na fydd yn bosib cyfarch popeth yn llwyr. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Mae ymgysylltu yn holl bwysig, ond hefyd yn her sylweddol sydd yn amhosib ei gyfarch yn llwyr. Bydd sicrhau gwella ymgysylltu yn arwain at wella dealltwriaeth gan Aelodau a'r cyhoedd, yn arbennig mewn amser heriol iawn gyda'r hinsawdd ariannol presennol. |

| **AP7** <u>**Dogfen Ymgynghorol ar Ddiwygio Llywodraeth Leol**</u> |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br>Ystyried a chyflwyno sylwadau ar gyfres o faterion yn codi yn y Ddogfen Ymgynghorol ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, sy'n amlinellu nifer o faterion y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried o ran trefn a phatrwm awdurdodau lleol yng Nghymru. |
| <u>Argymhellion</u><br>Cyflwynwyd nifer o argymhellion manwl i'r Aelod Cabinet er mwyn ei gynorthwyo i lunio ymateb swyddogol ar ran Cyngor Gwynedd i'r holl faterion amrywiol oedd angen sylw yn y ddogfen. Yn ogystal â'r argymhellion manwl, cyflwynwyd yr argymhellion cyffredinol a ganlyn:<br>• Bod y pwyllgor yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar y ddogfen, er yn bryderus am y cymysgedd yn y cynigion sydd gerbron<br>• Ei bod yn angenrheidiol pwysleisio y pwysigrwydd i symud ymlaen yn fuan i osod cyfeiriad ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Sicrhau herio cynigion y Llywodraeth yn annibynnol gan gyflwyno sylwadau i'w hymgorffori yn ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. Mae ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfle i geisio dwyn perswâd i newid rhai materion yn yr ymgynghoriad er budd gweithrediad Llywodraeth Leol, fydd yn arwain at wella'r broses ddemocrataidd mewn Llywodraeth Leol, fydd yn ei dro yn arwain at wella gwasanaethau i drigolion Gwynedd. |

| **AP8 Rheoli'r Galw** |
| --- |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Ystyried y diweddariad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet i'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y Cyngor i geisio rheoli'r galw am wasanaethau trwy ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol. |
| Argymhellion<br>Cyflwynwyd yr argymhellion a ganlyn i'r Aelod Cabinet eu hystyried:<br>• Yr angen i bawb fod yn ymwybodol o'r angen i reoli galw.<br>• Yr angen i newid diwylliant ymysg y staff, yn ogystal a phobl Gwynedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau.<br>• Y tueddiad cyfredol i ymateb i'r argyfwng presennol yn hytrach nag edrych yn fwy pell gyrhaeddol ac, wrth i adnoddau brinhau, bod angen buddsoddi yn y gwasanaethau mewn ffordd sy'n mynd i arbed yn y tymor hir a rhoi gwell ansawdd bywyd i'r dinesydd |
| Effaith Disgwyliedig<br>Ni all y Cyngor ddygymod gyda'r galw cynyddol ar wasanaethau oni bai ein bod yn gwneud toriadau i wasanaethau. Mae'n amlwg fod angen adnabod dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau, os am geisio lleihau nifer o wasanaethau sydd yn cael eu torri. |

## B Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

Cadeirydd – y Cynghorydd Peter Read
Is-gadeirydd – Y Cynghorydd Beth Lawton

**Cylch Gorchwyl**

- Pobl Hŷn
- Oedolion
- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc
- Addysg
- Llwybr i gyflogaeth
- Iechyd.

### Ymchwiliadau Craffu

**Cwblhawyd un Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn.**
**Traciwyd cynnydd ar gyflawni argymhellion un Ymchwiliad**

| **BY1 Ymchwiliad Craffu o'r Ysbyty i'r Cartref ( Rhan 1)** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Cynhaliwyd ymchwiliad gan grŵp o aelodau'r Pwyllgor Craffu i weld pa mor addas ac effeithiol yw trefniadau rhyddhau cleifion o'r Ysbyty i'r Cartref yng Ngwynedd |
| Argymhellion<br>Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am faterion Gofal i:<br>• wirio fod *Protocol Rhyddhau* (*Discharge Protocol)* Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi ei adolygu ac yn gyson â threfniadau gweithredol Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn y gymuned<br>• ofyn i'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gytuno ar *brotocol rhyddhau* o'r ysbyty a threfniadau ymarferol i'w weithredu<br>• adolygu trefniadau cydweithio a chyfathrebu rhwng y timau hynny sy'n hwyluso rhyddhau a throsglwyddo o'r ysbyty a'r asiantaethau hynny sy'n cynnig cefnogaeth yn y gymuned er mwyn adnabod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth i gleifion gan edrych ar ymarfer da mewn ardaloedd eraill<br>• adolygu'r gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo 7 diwrnod sydd wedi ei gynnig dros dro yn Ysbyty Gwynedd ac ystyried unrhyw faterion perthnasol wrth ddatblygu gwasanaeth tebyg o fewn y Prosiect Gofal Canolraddol yn yr un maes<br>• adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y Prosiect Gofal Canolraddol sy'n gyfwerth â gwariant o £1.3 miliwn<br>• bwyso am welliannau i'r Lolfa Drosglwyddo gan ei gwneud yn ystafell gyfforddus a phwrpasol sy'n cynnwys cyfleusterau newid a symud y toiledau anabl yn agosach at y Lolfa er hwylustod<br>• ofyn i BIPBC am ddiweddariad ar eu cynlluniau i weithredu 'Mwy na Geiriau'<br>• ddatblygu ffyrdd o gasglu bodlonrwydd cleifion hŷn ar y gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo er mwyn sicrhau bod ganddynt lais yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach a gwella'r ddarpariaeth<br>Derbyniwyd yr argymhellion gan yr Aelod Cabinet Gofal. Cawsant eu tracio, a gwelwyd bod cynlluniau ar y gweill i wireddu'r argymhellion. |

Effaith Disgwyliedig

Gwella'r trefniadau rhyddhau o'r Ysbyty i drigolion Gwynedd

**BY2 Tracio Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg – Prosiect Hyrwyddo Ansawdd**

- Yn 2012 nododd yr Aelod Cabinet Addysg ei bwriad i gynnal gwaith i gasglu tystiolaeth fanwl am gysondeb yr ansawdd, profiadau a chyfleoedd a gynigir i ddisgyblion ysgolion Gwynedd.
- Cytunodd y Pwyllgor Craffu i gynnal Ymchwiliad Craffu i ymchwilio i rai agweddau o'r gwaith.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Terfynol i'r Aelod Cabinet yn Ionawr 2014

Beth wnaeth y Craffwyr

Mai 2014

- Nodwyd argymhellion a wnaed yn genedlaethol gan Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru i wella canlyniadau TGAU Saesneg
- Gofynnwyd am resymau gan yr Aelod Cabinet Addysg pam bo'r canlyniadau'n îs na'r disgwyl yn Ionawr 2014 a pha gamau a weithredir i sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Mehefin 2014

- Ystyriwyd Adroddiad Cynnydd ar y Prosiect Hyrwyddo Ansawdd yn yr Ysgolion Uwchradd a gwnaed sylwadau fel a ganlyn gan y craffwyr:
  - Croesawyd y cydweithio gyda Phrifysgol Bangor
  - Nodwyd peth pryderon am effeithiolrwydd y drefn o gefnogi Llywodraethwyr.
- Ystyriwyd Adroddiad yr Aelod Cabinet ar Arholiadau TGAU Saesneg Ionawr 2014
  - Derbyniwyd y prif bwynt mai agweddau o asesu sydd yn bennaf gyfrifol am yr amryfusedd, yn hytrach nag unrhyw wendidau sylfaenol mewn dulliau addysgu/cyflwyno.

Medi 2014

- Ystyriwyd Cynllun Gweithredu drafft y Prosiect Hyrwyddo Ansawdd

Rhagfyr 2014

- Ystyriwyd Diweddariad ar gynnydd ar y Prosiect Hyrwyddo Addysg a gwnaed y sylwadau canlynol gan yr aelodau:
  - Croesawyd y gwaith o gydweithio gyda Phrifysgol Bangor i gynyddu nifer athrawon mathemateg cyfrwng Cymraeg
  - nodwyd bod angen mwy o sylw i bontio rhwng cynradd ac uwchradd
  - croesawyd y posibilrwydd o benodi Arweinydd Strategol dros Ddalgylch lle bo'n bosibl

Argymhellion

- Cymeradwyo'r cynnydd a wnaed ond bod angen parhau i fonitro'r cynnydd
- Rhoi ystyriaeth fanwl i argymhellion a sylwadau a ddaw gan ESTYN yn dilyn eu hymweliad rhwng 2-5 Rhagfyr 2014 (gweler eitem BP10 isod)

Effaith Disgwyliedig

Gwella a sicrhau cysondeb yn ansawdd y profiadau a chyfleoedd a gynigir i blant a phobl ifanc y Sir er mwyn rhoi cyfle i bob unigolyn ddatblygu i'w lawn botensial.

**Gwaith y Pwyllgor Craffu**

| **BP1 Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Mehefin 2014<br>Ystyriwyd cynigion yr Aelod Cabinet Addysg i **ail-leoli** Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth i agor ar 1 Medi 2016.<br><br>Nodwyd y byddai'r ddarpariaeth newydd yn cynyddu capasiti ac yn cynnig elfen breswyl ychwanegol i drigolion Gwynedd<br><br>Nodwyd yn ogystal bod gwaith yn mynd rhagddo i **ail lunio'r ddarpariaeth** yn holl ysgolion y Sir.<br><br>Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion **ail-leoli**.<br><br>Hydref 2014<br>Ystyriwyd diweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg.<br><br>Tachwedd 2014<br>Ystyriwyd diweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg.<br><br>Rhagfyr 2014<br>Cais gan yr Aelod Cabinet i sefydlu Grŵp Tasg i graffu ar y **Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**.<br><br>Yr aelodau'n enwebu 4 aelod i'r Grŵp.<br><br>Cyfarfu'r Grŵp ym mis Ionawr 2015. Yr aelodau'n datgan pryder na fu cyfarfod arall yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ionawr 2015<br>Cabinet yn cymeradwyo cyllid cyfalaf ychwanegol i gyfarch effaith chwyddiant ar y cynllun **ail-leoli** |
| Argymhellion<br>Hydref 2014<br>Mynegwyd pryderon gan yr aelodau a gofynnwyd am wybodaeth pellach ar y pwyntiau yma:<br>- manylion am yr ymgynghoriad ar ail-lunio'r ddarpariaeth ar draws y Sir<br>- ymateb SNAP Cymru i'r holiaduron a anfonwyd at rieni<br>- manylion am yr ymdrechion i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau<br>Tachwedd 2014<br>Gwnaed y sylwadau canlynol gan yr aelodau gan ofyn i'r Aelod Cabinet ymateb cyn gynted â phosibl:<br>- mae'n ymddangos bod methiant i ymgynghori gyda rhieni<br>- pa ymdrechion a wneir i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau<br>- pa drefniadau fydd mewn lle i godi ymwybyddiaeth rhieni bod eu plant ar ddatganiadau<br>Mawrth 2015<br>- Gofynnwyd am gyfarfod o'r Grŵp i dderbyn diweddariad ar y cynlluniau |
| Effaith Disgwyliedig<br>Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol gan gynnig darpariaeth preswyl o'r newydd; ac ail-strwythuro'r ddarpariaeth ar draws y Sir gan sicrhau dealltwriaeth gan y rhieni o'r newidiadau. |

| **BP2 Pan Dwi'n Barod – Prosiect Ôl-Ofal**<br><br>- Nod y cynllun yw paratoi pobl ifanc, Gwasanaethau Oedolion ac eraill yn well cyn bod person ifanc yn gadael gofal y Cyngor.<br>- Mae'r cynllun yn rhan o beilot gan Lywodraeth Cymru a fydd yn rhan allweddol o'r Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol newydd.<br>- Cost y Cynllun i Wasanaeth Plant Cyngor Gwynedd yn ystod 2013-14 oedd £47,000 i gefnogi 7 person ifanc gyda'r gost yn debygol o gynyddu i £90,000 ar gyfer 2014-15 |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Mai 2014<br>Anfonwyd y cwestiynau canlynol gan yr aelodau craffu i'r Aelod Cabinet Gofal:<br>- Beth yw trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer paratoi plant a phobl ifanc sydd mewn gofal ar gyfer yr oedran pan maent yn symud o ofal y Cyngor?<br>- Pa bryd mae'r cynllunio ar gyfer y cyfnod o adael gofal yn dechrau?<br>- Ers pa bryd mae'r cynllun *Pan fyddai'n barod* ar waith yng Ngwynedd? Faint o blant a phobl ifanc y mae'n effeithio arnynt?<br>- Beth yw asesiad y Gwasanaeth o lwyddiant y peilot ac unrhyw gost sydd ynghlwm ag ef?<br>- Beth yw'r tebygrwydd o ymestyn y peilot a'i brif-ffrydio a beth fyddai goblygiadau hynny?<br>Mehefin 2014<br>Ystyriwyd ymatebion yr Aelod Cabinet Gofal i'r uchod, ac fe'i holwyd ymhellach gan yr aelodau. |
| Argymhellion<br>Nid oedd argymhellion penodol gan y Craffwyr |
| Effaith Disgwyliedig<br>Sicrhau bod y Cynllun Peilot yn gwneud gwahaniaeth a gwella'r profiadau i bobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion a gadael gofal y Cyngor. |

| **BP3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**<br>- Roedd Prif Weithredwr newydd BIPBC wedi ei benodi<br>- Roedd yr aelodau craffu yn ystyried y byddai'n fuddiol cael manylion am gynlluniau'r Bwrdd a chyfle i gwestiynu'r Prif Weithredwr |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Medi 2014<br>Ymgynghorwyd â holl aelodau Cyngor Gwynedd a chynghorwyr Ynys Môn ac fe anfonwyd cwestiynau ar y themâu canlynol at y Prif Weithredwr.<br>- Perfformiad y gwasanaeth o safbwynt gosod cleifion ar rhestrau aros hir; oedi wrth aros am asesiadau brysbennu (triage); arafwch y gwasanaeth galwadau brys ar adegau; a chadw cleifion yn rhy hir yn yr ysbyty<br>- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwireddu ei bolisi iaith i gyfarch anghenion iaith cleifion sy'n siarad Cymraeg?<br>- Sut ydych chi am ennill hyder pobl Gwynedd yn ôl?<br>- Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer ysbytai bach?<br>- Sut mae gwella cydweithio a phwy ddylai arwain?<br>- Beth yw bwriadau'r Bwrdd o safbwynt gwasanaethau ataliol?<br>- Beth fydd rôl y Trydydd Sector yn y dyfodol, a sut fydd yn cael ei ariannu?<br>- Beth yw effaith prinder meddygon ar y gwasanaeth, a sut ydych chi am ddelio efo hyn? |

| |
|---|
| Hydref 2014<br>Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr ar ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth Iechyd a chafwyd ymateb ganddo i'r cwestiynau uchod.<br><br>Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn cytuno i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. |
| Argymhellion<br>Nid oedd argymhellion penodol gan y craffwyr |
| Effaith Disgwyliedig<br>Bydd gweithio mewn partneriaeth yn debygol o wella'r ddarpariaeth i drigolion Gwynedd |

| |
|---|
| **BP4 Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**<br>Mae'r Asiantaeth sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ar gyfer y bobl sy'n eu defnyddio. |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Rhagfyr 2014<br>Cyflwynodd Rheolwr Ardal Gwynedd ac Ynys Môn yr Asiantaeth *Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14 ar Wynedd* i aelodau'r Pwyllgor Craffu.<br>Gwnaed sylwadau gan yr aelodau fel a ganlyn:<br>- Bod angen ymgynghori'n effeithiol gyda'r defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion y Sir ynglŷn â'r gofynion newydd yn y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.<br>- Mynegwyd pryder nad oedd yn glir sut y gellid gwireddu arbedion heb effeithio'n andwyol ar wasanaethau.<br>- Nodwyd sylwadau'r Asiantaeth ar y sialens i ddylanwadu a chydweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid allweddol eraill.<br>- Nodwyd bod yr Asiantaeth yn parhau gyda'i drafodaethau gyda'r Cyngor ynglŷn â rôl y Cyfarwyddwr Corfforaethol.<br>- Gofynnwyd am rannu gwybodaeth yn amserol ynglŷn â chwynion gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu<br>Ionawr 2015<br>Ystyriwyd y canlynol gan y Craffwyr:<br>- Adroddiad Cryno Cwynion Chwarter 1 a Chwarter 2 (2014-15)<br>- Canllawiau delio â Chwynion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2014<br>Mawrth 2015<br>- Ystyriwyd ymateb y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i argymhellion Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14 AGGCC a nodwyd bod Cynllun Gwella mewn lle ac yn cael ei graffu gan yr Aelodau Cabinet perthnasol. |
| Argymhellion<br>- Bod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn llunio Cynllun Gwella o'r meysydd a adnabuwyd ac yn cyflwyno diweddariad ar y rhaglen erbyn mis Mawrth 2015 i aelodau'r Pwyllgor Craffu.<br>- Gofyn am Adroddiad Cynnydd ar gyflawniad y Cynllun Gwella yn Hydref 2015<br>- Gohirio craffu'r eitem Cwynion hyd nes bydd yr Adroddiad Blynyddol Cwynion yn barod. |
| Effaith Disgwyliedig<br>Defnyddio gwaith yr Arolygwyr i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu datblygu a'u gweithredu yn unol ag anghenion y defnyddwyr a thrigolion y Sir. |

| |
|---|
| **BP5 Arbediad Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd a Chymorth i Ferched Bangor**<br>- Roedd hwn yn un o gynlluniau arbedion y Cyngor<br>- Ei amcan oedd gwneud arbediad drwy dorri arian i gefnogi gwaith y ddau fudiad gyda phobl bregus/anghennus |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><u>Rhagfyr 2014</u><br>- Cyflwynwyd adroddiad y Gweithgor Arbedion gan Gadeirydd y Fforwm Craffu i sylw aelodau'r Pwyllgor.<br>- Nododd yr aelodau nad oedd yn glir o'r wybodaeth a gafwyd na fyddai'r arbediad yma'n cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr.<br><u>Chwefror 2015</u><br>- Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc i aelodau'r Pwyllgor Craffu gyda mwy o fanylion am effaith tebygol yr arbediad.<br>- O'r dystiolaeth a gyflwynwyd roedd yr aelodau o'r farn y gallai gweithredu'r arbediad gael effaith negyddol ar rai o bobl bregus y Sir. |
| <u>Argymhellion</u><br><u>Rhagfyr 2014</u><br>- Mae'r gwasanaeth a gynigir gan y ddau fudiad yn rhan bwysig o wead gwasanaethau i nifer sylweddol o blant bregus yn y Sir ac y dylai'r niferoedd hynny fod yn hysbys cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad.<br>- Mae elfen arbedol gref i waith y mudiadau sy'n arbed costau uwch posibl i'r gwasanaethau statudol nes ymlaen. Mae angen i'r Cabinet fod yn glir na fydd unrhyw arbediad tymor byr yn arwain at wariant uwch maes o law.<br>- Dylid cael gwybodaeth ariannol am effaith ehangach yr arbediad hwn ar gyllidebau'r cyrff dan sylw, yn cynnwys eu gallu i ddenu grantiau pellach cyn gwneud unrhyw benderfyniad.<br><br>Cabinet yn derbyn yr argymhellion a gohirio penderfyniad.<br><br><u>Chwefror 2015</u><br>- Nid yw'n briodol i ddiddymu cytundebau'r ddau fudiad fel arbedion effeithlonrwydd<br>- Cyfeirio'r mater i'w ystyried dan drefn doriadau'r Cyngor.<br>- Bod swyddogion perthnasol yn gweithio gyda swyddogion y ddau fudiad i weld beth fyddai'r effaith arnynt o weithredu heb gyllid craidd gan y Cyngor.<br><br>Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd yn derbyn yr argymhellion ac yn cyfeirio'r mater o Gynllun Arbedion y Cyngor i gael ei ystyried y flwyddyn nesaf yn y gyfundrefn doriadau. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Cynnal lefel y ddarpariaeth i blant a theuluoedd bregus tra'n cynnal asesiad effaith llawn ar unrhyw doriadau posibl yn y dyfodol. |

| |
|---|
| **BP6 Arbediad Cytundebau Darparwyr Gofal Cartref Allanol**<br>- Roedd hwn yn un o gynlluniau arbedion y Cyngor<br>- Ei amcan oedd gwneud arbediad i'r Cyngor drwy beidio cynyddu taliadau i asiantaethau allanol sy'n darparu gwasanaethau gofal ar ran y Cyngor |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><u>Rhagfyr 2014</u><br>Cyflwynwyd adroddiad y Gweithgor Arbedion gan Gadeirydd y Fforwm Craffu i sylw aelodau'r Pwyllgor. |
| <u>Argymhellion</u><br>- Lleihau ffigwr yr arbediad gwreiddiol o £942,000 i £373,000 i'w weithredu dros dair blynedd<br>- I ail-ystyried yr holl ffioedd yn flynyddol gan ystyried y cyd-destun perthnasol a statws y farchnad ar y pryd.<br>- Bod yr arbedion effeithlonrwydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfreithiol angenrheidiol.<br><br>Cabinet yn derbyn yr argymhellion |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Cynnal lefel y ddarpariaeth gofal cartref allanol i drigolion a defnyddwyr gwasanaeth mewn cyfnod trawsnewidiol. |

| |
|---|
| **BP7 Galluogi**<br>Mae'r gwasanaeth Galluogi yn cael ei gynnig gan Wasanaethau Oedolion y Cyngor fel gwasanaeth tymor byr i alluogi oedolion sy'n gymwys ar gyfer derbyn cymorth gwasanaethau cymdeithasol i aros adref, cynnal neu wella eu hannibyniaeth ac ansawdd bywyd. |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><u>Ionawr 2015</u><br>- Ystyriwyd adroddiad gan yr aelodau craffu a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Gofal a'r Cyfarwyddwr i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2014 yn datgan pryderon am orwariant ym maes pobl hŷn.<br>- Nodwyd nifer o resymau am y gorwariant ac yn eu plith yr angen i sicrhau nad ydym yn rhoi gwasanaeth galluogi *rhad ac am ddim* i unigolion na fydd yn elwa ohono.<br>- Gofynnodd yr aelodau craffu am wybodaeth pellach am y gorwariant a dadansoddiad manylach o'r defnydd o'r gwasanaeth galluogi.<br><u>Chwefror 2015</u><br>- Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd a'r Cyfarwyddwr i'r aelodau craffu.<br>- Cafwyd esboniadau i nifer o faterion ond roedd pryderon yn parhau ar rai materion.<br>- Nodwyd bod dryswch ynglŷn ag a ydyw'r gwasanaeth ar gael yn rhad ac ddim am gyfnod o hyd at 6 neu 12 wythnos yn parhau.<br>- Mae angen sicrhau bod trefniadau monitro effeithiol mewn lle er mwyn canfod goblygiadau i'r gyllideb.<br>- Roedd anghydweld ynglŷn ag a oedd unigolion a oedd eisiau gadael yr ysbyty yn gorfod disgwyl am y gwasanaeth neu beidio.<br>- Nodwyd bod adroddiad yn cael ei gyflwyno ar wahân ar y gorwariant i'r Pwyllgor Archwilio.<br>- Nodwyd pwysigrwydd derbyn adborth gan feddygon a nyrsys cymunedol cyn diddymu galluogi. |

| |
|---|
| <u>Mawrth 2015</u><br>- Cyflwynwyd adroddiad perfformiad Chwarter 3 i aelodau'r Pwyllgor Craffu<br>- Nodwyd bod y perfformiad wedi dirywio ymhellach yn ystod Chwarter 3 gyda chynnydd yn y nifer sy'n dychwelyd yn gynt i'r broses 'oherwydd aneffeithioldeb egwyddorion Galluogi'. |
| <u>Argymhellion</u><br><u>Chwefror 2015</u><br>- Yn sgil y pryderon a amlygwyd, gofynnwyd i aelodau'r Ymchwiliad Craffu *O'r Ysbyty i'r Cartref (Rhan 2)* gyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwr Gwasanaethau Oedolion i'w trafod ymhellach.<br><u>Mawrth 2015</u><br>- Peidio rhaglennu adroddiad pellach ar hyn o bryd a chadw llygad ar y gwaith datblygol a'r perfformiad |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Darparu gwasanaeth Galluogi effeithiol ac effeithlon er budd defnyddwyr gwasanaeth yng Ngwynedd |

| **BP8 Plant sy'n Derbyn Gofal**<br>**Mae'n ddyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i roi trefniadau diogelu ar waith ac i gydweithio ag eraill, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Plant, i sicrhau lles plant Gwynedd** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>Ionawr 2015<br>- Ystyriwyd Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)ar Drefniadau Diogelu Plant Cyngor Gwynedd a gyhoeddwyd yn Hydref 2014.<br>- Nodwyd penderfyniad y Cabinet yn Rhagfyr 2014 i gymeradwyo rhaglen waith i gyfarch yr argymhellion yn Adroddiad SAC a materion diogelu plant a nodwyd mewn adroddiadau cynharach gan ESTYN ym Mawrth 2013 ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Awst 2014.<br>- Ystyriwyd perfformiad Chwarter 2 (Gorff-Medi 2014) ar fesurydd SCC/025 *Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cynnal yn unol â'r rheoliadau.*<br>- Nodwyd mai dim ond 5 aelod o'r Pwyllgor oedd wedi cofrestru i fynychu hyfforddiant Rhiant Corfforaethol a gynhelir ym mis Ebrill. Roedd peth aneglurder ynglŷn ag a oedd angen mynychu'r hyfforddiant yn flynyddol ac a oedd angen i aelodau sy'n weithredol ym maes pobl bregus dderbyn yr hyfforddiant.<br>Chwefror 2015<br>- Ystyriwyd Diweddariad yr Aelod Cabinet ar Fesurydd SCC/025<br>- Nodwyd a llongyfarchwyd yr Aelod Cabinet ar y gwelliant sylweddol ym mherfformiad Chwarter 3<br>- Derbyniwyd yr esboniad am berfformiad gwan y gorffennol oherwydd problemau cofnodi'r wybodaeth yn anghywir a bod hyn bellach wedi'i ddatrys.<br>- Ystyriwyd sylwadau yn llythyr Estyn at y Prif Weithredwr ar 5 Chwefror 2015 yn dilyn Ymweliad Monitro Estyn rhwng 2-5 Rhagfyr 2014.<br>- Nodwyd sylwadau'r Arolygiaeth bod y Cyngor wedi mynd ati'n gyflym i fynd i'r afael â'r argymhellion a oedd yn codi o'r arolygiad yn 2013 a'i bod yn tynnu'r Cyngor o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.<br>- Bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad ynglŷn â diogelu i raddau helaeth. |
| Argymhellion<br>Ionawr 2014<br>- Nododd yr aelodau eu pryder wrth yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd am ddiffyg cynnydd ar fesurydd SCC/025 a gofyn am adroddiad yn rhoi diweddariad a manylion am y rhesymau dros y diffyg cynnydd a'r hyn sy'n cael ei wneud i ddelio gyda'r sefyllfa.<br>Chwefror 2015<br>- Diolch i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am eu gwaith gofalus a'r gwelliant mewn perfformiad yn y maes yma wrth sicrhau ymatebion i adroddiadau'r Arolygwyr. |
| Effaith Disgwyliedig<br>Cynnal gwasanaethau diogel i blant bregus y Sir. |

**BP9 Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion (GwE)**

- Cafodd GwE ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru i fod yn atebol i'r cynghorau ac i gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â gwella ysgolion.
- Prif rolau GwE yw
  - Cynnal ymweliadau monitro tymhorol
  - Cefnogi ysgolion categori risg coch/oren
  - Cefnogi cyn ac ôl-arolwg

<u>Beth wnaeth y Craffwyr</u>

<u>Rhagfyr 2014</u>

- Ystyriwyd adroddiad ar weithredu GwE gydag ysgolion Gwynedd a gwnaed y sylwadau yma gan yr aelodau craffu:
- Bod y dangosydd cinio am ddim yn un amrwd iawn o berfformiad ysgolion.
- Y byddai'n fuddiol i rannu'r enghraifft o'r gynhaliaeth i ysgolion categori coch gyda holl lywodraethwyr ysgolion y Sir.
- Peth pryder gan aelodau bod cysylltiadau mentora'n golygu gormod o deithio i rai penaethiaid.

<u>Mawrth 2015</u>

- Nodwyd pryderon gan rai Penaethiaid nad oedd GwE yn darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gofynnwyd am restr o'r hyfforddiant sydd wedi ei gynnal ac ar gael i'r dyfodol

<u>Argymhellion</u>

- Rhoi sylw pellach i gryfhau'r ddealltwriaeth o gydweithio
- Darparu cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg

<u>Effaith Disgwyliedig</u>

Gwella'r gefnogaeth i ysgolion y Sir i gyflawni'n uwch er budd disgyblion Gwynedd.

**BP10 ESTYN (Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)**

<u>Beth wnaeth y Craffwyr</u>

- Cyflwynwyd Llythyr Mr Clive Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ESTYN i aelodau'r Pwyllgor Craffu.
- Roedd y llythyr yn nodi cyrhaeddiad y Cyngor ar weithredu gwelliannau a nodwyd ym Mawrth 2013.
- Aseswyd y cyrhaeddiad mewn ymweliad â'r Cyngor rhwng 2-5 Rhagfyr 2014.
- Nodwyd sylw'r Arolygiaeth *bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn sgil adolygiad Mawrth 2013*.
- Nodwyd yr angen i aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried sefyllfaoedd ysgolion unigol yn ogystal â chadw trosolwg o'r maes.
- Nodwyd y cydnabyddir fel arfer da gwahodd Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr unigol i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu i gael eu herio am eu perfformiadau.
- Nodwyd nad oedd ESTYN wedi arolygu GwE ond wedi cynnal arolwg thematig ar gais y Gweinidog Addysg ond bod bwriad i edrych ar berfformiad GwE maes o law.
- Nodwyd na fydd methodoleg arolygiadau ESTYN ar ysgolion yn newid yn sgil toriadau i gyllidebau ysgolion.

| |
|---|
| Argymhellion<br>- Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am eu cyrhaeddiad ar y gwelliannau.<br>- Bydd yr aelodau craffu'n disgwyl gweld adlewyrchiad o'r gwelliannau yn Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg a fydd yn dod gerbron yn y cyfarfod nesaf (gweler BP15 isod).<br>- Gofynnir i'r Adran rhannu gwybodaeth glir am berfformiadau ysgolion unigol gyda'r aelodau. |
| Effaith Disgwyliedig<br>Gwelliant parhaus i ansawdd yr addysgu a chyflawniad disgyblion Gwynedd. |

| **BP11  Pennaeth Addysg Newydd** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br>- Derbyniwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Addysg newydd yn amlinellu ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth addysg.<br>- Diolchwyd i'r Pennaeth a gwnaed rhai sylwadau gan yr aelodau.<br>- Tynnwyd sylw at yr her arbennig o safbwynt lleihad mewn adnoddau a nodwyd y cyfle i gydweithio, rhannu arfer da a mynd i'r afael â sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel.<br>- Gofynnwyd i'r Pennaeth sicrhau y bydd y gwasanaeth yn monitro a herio'n effeithiol ysgolion sy'n tanberfformio . |
| Argymhellion<br>Diolch am y cyflwyniad a gofyn i'r Pennaeth ymweld â'r Fforymau Ardal i ledaenu ei weledigaeth. |
| Effaith Disgwyliedig<br>Cyfathrebu gweledigaeth y Pennaeth Addysg yn eang er lles trigolion y Sir. |

**BP12 Prosiect Trefniadaeth Ysgolion**

- **Mae hwn yn un o brosiectau Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2013-17 gyda'r nod o wella addasrwydd y gyfundrefn ysgolion yng Ngwynedd**
- **Gosodwyd 5 targed i'w cyflawni yn ystod 2014-15 fel rhan o'r prosiect.**

<u>Beth wnaeth y Craffwyr</u>

<u>Ionawr 2015</u>

- Ystyriwyd adroddiad perfformiad Chwarter 2. Roedd y asesiad yn nodi ei fod wedi gwneud cynnydd derbyniol, ond fe nodwyd rhai pryderon gan yr aelodau craffu.
- Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg ddarparu adroddiad i gyfarch y pwyntiau canlynol :
    - Faint o staff sy'n gweithio yn yr Uned Trefniadaeth Ysgolion a beth yw cost rhedeg yr Uned?
    - Pwy benderfynodd ar benodiad/gwasanaeth Pennaeth Ysgol Friars i fod yn gyfrifol am Ysgol y Gader, Dolgellau?
    - Dadansoddiad o'r arbedion a wireddwyd hyd yn hyn wrth gau ysgolion llai unrhyw gostau sefydlu ysgolion ardal
    - Effaith o safbwynt gwelliant ar safonau addysg y disgyblion ers sefydlu'r ysgolion newydd.
    - Esboniad am benderfyniad y Cabinet i ffafrio'r Model Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 oed cymunedol ar gyfer Dalgylch Ysgol y Gader.

<u>Chwefror 2015</u>

- Ystyriwyd Adroddiad yr Aelod Cabinet ar gyflawniad y Prosiect hyd yn hyn a nodwyd y canlynol gan yr aelodau craffu:
    - Tra'n derbyn bod agweddau cadarnhaol yn yr adroddiad, mynegwyd pryder nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at safonau addysg y sefydliadau newydd, a gofynnwyd am adroddiad pellach am yr elfen yma.
    - Nodwyd y bwriad i ail-ymweld â'r *Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd (2009*) er mwyn cyfarch problemau yn ysgolion uwchradd Meirionnydd.

<u>Mawrth 2015</u>

- Ystyriwyd adroddiad perfformiad chwarter 3 gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg am y canlynol:
    - Tystiolaeth o safon yr addysg yn benodol yn yr ysgolion ardal newydd
    - Gwybodaeth ynglŷn â niferoedd swyddi gwag yn ysgolion y Sir
    - O ystyried bod sawl ysgol wedi methu llenwi swydd Pennaeth yn ddiweddar a ydi hyn yn cael effaith ar addysg y plant?
    - Manylion am weledigaeth y Pennaeth Addysg newydd ar lefydd gweigion.

<u>Argymhellion</u>

- Cynnal dadansoddiad manwl a gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau a wireddwyd cyn gynted â phosibl gan roi sylw i agweddau safon addysg yn ogystal â materion eraill.
- Atgyfodi'r Gweithgor Ad-drefnu Ysgolion

<u>Effaith Disgwyliedig</u>

Sicrhau bod y Prosiect Ad-drefnu Ysgolion yn cyfrannu'n adeiladol at gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl i drigolion Gwynedd.

| **BP13 Prosiect Gyda'n Gilydd** |
|---|
| - Mae hwn yn un o brosiectau Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2013-17 gyda'r nod o gyfrannu at wella profiadau a chyfleoedd i grwpiau bregus o Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yng Ngwynedd.<br>- Gosodwyd 3 targed i'w cyflawni yn ystod 2014-15 fel rhan o'r prosiect. |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br>Ystyriwyd adroddiad perfformiad chwarter 3 ar y prosiect a nodwyd nad oedd y prosiect yn debygol o lwyddo i gyflawni addewidion y flwyddyn. Gofynnodd yr Aelodau Craffu i'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd ddarparu adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu gan gyfarch y pwyntiau canlynol:<br>- Manylion yr 8 argymhelliad ar sut i ddatblygu gwaith y prosiect Gyda'n Gilydd a wnaed gan Brifysgol Cymru<br>- Esboniad o'r rhesymau am y gwahaniaeth rhwng deilliannau chwarter 2 a chwarter 3.<br>- Manylion am gyfanswm y teuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth.<br>- Faint o deuluoedd sy'n cael eu cyfeirio gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd?<br><br>Derbyniwyd cais yr Aelod Cabinet i ohirio'r adroddiad. |
| Argymhellion |
| Effaith Disgwyliedig |

| **BP14 Gwasanaeth Ambiwlans** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br>- Nodwyd rhai pryderon gan aelodau am ddiffygion yn y gwasanaeth ambiwlans mewn rhai ardaloedd gwledig.<br>- Cafwyd ymateb ysgrifenedig gan Brif Weithredwr Dros Dro Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i nifer o'r materion<br>- Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu gyda Phennaeth Gweithrediadau dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i leisio'r pryderon ac i drafod trefniadau comisiynu newydd.<br>- Rhannwyd yr wybodaeth ac adborth o'r cyfarfod gyda'r aelodau craffu |
| <u>Argymhellion</u><br>Cadw golwg ar y sefyllfa. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br>Cynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwlans i ddysgu am yr anawsterau a'r diffygion yn y gwasanaeth er mwyn ei wella er lles trigolion y Sir. |

**BP15 Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Ysgolion Awdurdod Gwynedd 2013-14**
- **Mae'r adroddiad yn nodi manylion canlyniadau addysgol**

<u>Beth wnaeth y Craffwyr</u>

Ystyriwyd Adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ac fe wnaed y sylwadau canlynol gan yr aelodau craffu:

- Croesawyd y gwaith sydd ar y gweill gan y Gwasanaeth Addysg ar dargedau a chysoni asesiadau.
- Awgrymwyd bod angen gwneud ymdrech arbennig er mwyn delio gyda sefyllfa diffyg penaethiaid, athrawon arbenigol a llywodraethwyr mewn rhai ardaloedd o'r Sir.
- Nodwyd rhai o brif flaenoriaethau'r Pennaeth Addysg i ddelio gydag arweinyddiaeth ysgolion, cefnogi penaethiaid cynradd, gwneud swyddi arweiniol yn ddeniadol a chryfhau adnoddau canolog y gwasanaeth.
- Nodwyd awydd yr aelodau craffu i dderbyn adroddiad gan y Gwasanaeth Addysg ar gynigion o fodelau amgen ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion.
- Gofynnwyd a oedd diffyg gwelliant mewn canlyniadau gwyddoniaeth ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yn broblem o safbwynt perfformiad neu o ran y drefn o osod lefelau disgwyliedig.
- Gofynnwyd am esboniad o'r dirywiad yn y ddwy flynedd ddiwethaf o'r nifer o ysgolion nad ydynt yn perfformio cystal yn CA2.
- Awgrymwyd bod angen edrych ar ffordd amgenach o gofnodi cinio am ddim.
- Nodwyd pryder bod 10% o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a genethod.
- Gofynnwyd am fanylion sut mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r ysgolion sy'n tanberfformio dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd.
- Gofynnwyd am adroddiadau i'r Cyfarfod Paratoi ar ganran:
    - yr athrawon sy'n absennol o'u gwaith oherwydd straen.
    - y plant sy'n cael eu tynnu allan o'r ysgol i fynd ar wyliau fesul ardal.
- Nodwyd pwysigrwydd trefn dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd
- Nodwyd bod mewnlifiad o boblogaeth nad ydyw'n rhugl mewn Cymraeg a Saesneg yn gallu effeithio ar berfformiad.

<u>Argymhellion</u>

- Cyflwyno system electronig lle nad oes modd adnabod disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim.
- Cynnal y targed cyfredol ar gyfer disgyblion sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol yn yr ysgolion a pharhau i dracio yn lleol.
- Asesu canlyniadau'r Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg ar bolisi iaith yr awdurdod a gweithredu yn ôl yr angen.
- Sicrhau cywirdeb a chysoni asesiadau athrawon o lefel cyrhaeddiad disgyblion.
- Llunio cynllun i dargedu darpar athrawon arbenigol a chydweithio gyda'r colegau i'r dyfodol

<u>Effaith Disgwyliedig</u>

Parhau gyda'r gwelliant ym mhrofiadau addysgol plant a phobl ifanc Gwynedd

**C. Pwyllgor Craffu Cymunedau**

Cadeirydd Y Cynghorydd Angela Russell
Is-Gadeirydd Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (hyd at Rhagfyr 2014), Y Cynghorydd Caerwyn Roberts (o Chwefror, 2015)

**Cylch Gorchwyl**

- Adfywio ac Economi
- Gwynedd Werdd
- Amgylchedd
- Rhwydwaith Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol
- Grymuso Cymunedau
- Gwastraff
- Tai
- Iaith
- Lleihau ôl-troed carbon
- Cynllun Datblygu Unedol

**1. Ymchwiliadau Craffu**

Bu gwaith ar ddau Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn:

| **CY1 Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg Ol-16** |
|---|
| Beth wnaeth y craffwyr<br><br>Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet Addysg i ystyried:<br>• Sut y gweithredir Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach<br>• Effaith gweithredu'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ar ddarparwyr addysg ôl-16, dysgwyr a'u teuluoedd<br><br>Ychwanegwyd at friff yr Ymchwiliad pan y ceisiodd yr Aelod Cabinet gyngor yr Ymchwiliad ar yr her o ganfod arbedion effeithlonrwydd yn y maes. |
| Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg<br><br>Dyma argymhellion yr Ymchwiliad i'r Aelod Cabinet:- |

| | |
|---|---|
| Er gwella manteision i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd, lleihau prosesau ac yn ysbryd Ffordd Gwynedd, dylid cydweithio'n agosach ac i negodi efo Grŵp Llandrillo Menai i fod yn asiant i Gyngor Gwynedd | √ |
| Dylid adolygu'r Polisi Cludiant Ôl-16 i sicrhau Polisi addas a phwrpasol i gyfarch gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r Canllaw Teithio gan Ddysgwyr – Darpariaeth Statudol a Chanllaw Gweithredol Mehefin 2014 | √ |
| Dylid adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth gyda'r amrywiol sefydliadau i drefnu gwasanaeth pwrpasol | √ |
| Dylid cael Polisi Cludiant Ôl-16 pwrpasol sydd yn ystyried modd y | √ |

| | |
|---|---|
| dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd i dalu am gostau cludiant | |
| Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb | √ |
| Mae angen adolygu'r dalgylchoedd i leihau amseroedd a phellteroedd teithio dysgwyr/myfyrwyr yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr | √ |
| Mae angen i'r darparwyr addysg ôl-16 gydweithio i roi systemau yn eu lle i gasglu data er darganfod os ydi costau teithio yn arwain i fyfyrwyr ddisgyn allan o addysg bellach | √ |
| Dylid gosod mesuryddion gofal cwsmer pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth | √ |
| Mae angen sicrhau cyd-ddealltwriaeth y darparwyr addysg bellach a Galw Gwynedd o Bolisi Cludiant Ôl-16 Cyngor Gwynedd | √ |
| Dylid, yn ysbryd Ffordd Gwynedd, sicrhau bod cwestiynau defnyddwyr yn cael eu hateb gan eu cyswllt cyntaf | √ |
| Mae angen i Gyngor Gwynedd a'r darparwyr addysg ôl-16 gydweithio'n agos i gryfhau a chysoni'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd | √ |
| Mae angen darparu gwybodaeth berthnasol a phwrpasol i ddysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol ac addas sydd yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb | √ |
| Datblygu cyfundrefn sydd yn gyfuniad o newid i system tocynnau, trosglwyddo gwasanaeth cludiant i'r coleg a gweinyddiaeth tocynnau cludiant coleg i Grŵp Colegau Llandrillo Menai, gan gynnwys:-<br>• sicrhau un pris i bawb.<br>• cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr coleg a dysgwyr ysgolion uwchradd.<br>• darparu benthyciadau ariannol i brynu cerbyd / beic modur yn ogystal er hwyluso mynediad at addysg bellach a hyfforddiant.<br>• parhau gyda'r ymarfer da o'r ddarpariaeth athrawon / darlithwyr peripatetig ac adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth a'i adolygu'n rheolaidd.<br>• cynnal asesiad effaith unrhyw gynnig i newid y ddarpariaeth cludiant a sicrhau bod y penderfyniad terfynol ar sail yr asesiadau hynny | ? |

<u>Effaith Disgwyliedig</u>

Nod yr Ymchwiliad oedd cynnig cyfundrefn deg a chynaliadwy i'r dyfodol. Bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar weithrediad yr Aelod Cabinet ar yr argymhellion

**CY2 Ymchwiliad Craffu Digartrefedd**

<u>Beth wnaeth y craffwyr</u>

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet dros y maes Tai i ystyried y cwestiynau a ganlyn:-

- Beth yw patrwm darpariaeth yr Awdurdod a'r partneriaid yn ei gyfanrwydd ar gyfer pobl ddigartref yng Ngwynedd?
- Pa mor addas yw darpariaeth yr Awdurdod a'r partneriaid i bobl ddigartref; - Teuluoedd - Merched - Pobl ifanc - Dynion sengl?
- A yw darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref yn cwrdd ag anghenion y defnyddiwr?

- Pa mor hygyrch yw'r darpariaethau i'r defnyddiwr ac a oes mynediad rhwydd at wasanaethau allweddol eraill?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ddigartref yn gost effeithlon ac yn gynaliadwy?
- A yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i gwrdd â'r cynnydd tebygol yn nifer y digartref yn sgil y dirwasgiad presennol a'r diwygiadau yn y gyfundrefn les?
- Beth yw rôl partneriaid i ddarparu ar gyfer pobl ddigartref?
- A oes ystyriaeth yn cael ei roi i leoliad y ddarpariaeth, hynny yw, addasrwydd yr hosteli ar sail y gwasanaethau sydd ar gael?
- A oes ystyriaeth yn cael ei roi i gefndiroedd yr unigolion sydd yn aros yno?
- Beth yw'r broses cyflwyno?
- A yw'r ddarpariaeth yn ymateb i ddigartrefedd lleol?

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros y maes Tai

Yr Ymchwiliad heb ei gwblhau gan na chychwynwyd ar y gwaith tan Ionawr 2015. Felly, ni chyflwynwyd argymhellion i'r Aelod Cabinet yn ystod 2014/15

Effaith Disgwyliedig

Gan fod yr argymhellion heb eu cyflwyno eto i'r Aelod Cabinet, adroddir ar effaith disgwyliedig yr Ymchwiliad yn adroddiad 2015/16

## 2. Gwaith y Pwyllgor

Nodir isod y materion sydd wedi eu trafod yn y pum cyfarfod pwyllgor yn ystod 2014/15.

**CP1. Effaith Cytundebau 106 ar Hyfywdra Cymunedau**

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyn a herio adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio, y Cynghorydd John Wyn Williams ar y pryd, yn dilyn pryderon bod rhwystrau yn bodoli gyda chytundebau 106 fel dull o hwyluso mynediad pobl leol at dai yn eu cymunedau.

Nodwyd bod yr hyn sy'n bosib yn y maes hwn dan adolygiad yn sgil cyflwyno'r Bil Cynllunio newydd

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion penodol gan y Craffwyr i'r Cynghorydd John Wyn Williams, yr Aelod Cabinet Cynllunio ar y pryd.

Effaith Disgwyliedig

Erys y broblem ac mae'r Pwyllgor Craffu yn debyg o ail-ymweld â'r maes yn ystod 2015/16 gan fod y pryderon yn parhau.

| **CP2. Deddf Diogelu Bwyd – Adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd** |
| --- |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Bu'r Pwyllgor Craffu yn ystyried ddwywaith adroddiad beirniadol a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd am agweddau o drefniadau'r Cyngor oedd ddim yn cydfynd â gofynion y Ddeddf Diogelu Bwyd.<br><br>Sefydlodd y pwyllgor yn fuan iawn bod y gwendidau yn rhai oedd yn effeithio trefniadau mewnol y Cyngor ac nid busnesau unigol. Fodd bynnag, mynegwyd siom gyda'r adroddiad a cheisiwyd ymateb buan iddo gan wahodd swyddog o'r Asiantaeth Safonau Bwyd gerbron y pwyllgor i gynghori ar y graddau yr oedd Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth yn cyfarch y gwendidau.<br><br>Derbyniwyd adroddiad yn ôl ar y Cynllun Gweithredu a heriwyd swyddog o'r Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigonolrwydd ymateb y Cyngor |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Mynegwyd bodlonrwydd gyda'r cynnydd hyd at Hydref 2014, gan geisio adroddiad pellach yn 2015/16 er mwyn i'r pwyllgor wirio os oedd y gweithredu wedi dod â'r gwasanaeth i lle y dylai fod. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Disgwylir sicrwydd yn ystod 2015/16 bod y gwendidau a adnabuwyd yn yr adroddiad i gyd wedi eu cyfarch yn ddigonol. |

| **CP3. Gwasanaethau Bws Ardal Arfon** |
| --- |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Derbyniwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Roberts ar y pryd, yn dilyn penderfyniad gan gwmni bws lleol i derfynu masnachu a'r camau y bu'n rhaid i'r Uned Cludiant Integredig eu cymryd i leihau'r effaith ar drigolion Gwynedd.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor sicrwydd bod pob dim wedi ei wneud i warchod gwasanaethau, er bod peth cost ynghlwm â hynny yn y tymor byr. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Nid oedd unrhyw argymhellion ond fe wnaeth longyfarch yr Adran Rheoleiddio a'r Uned Cludiant Integredig yn benodol am eu gwaith a'u hymdrech i adfer sefyllfa anodd drwy leihau'r effaith ar drigolion Gwynedd |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Gwarchod gwasanaethau bws yn ardal Arfon er gwaethaf colled arwyddocaol o ran darparwyr yn y maes |

| CP4. Dyfodol Cludiant Cyhoeddus |
| --- |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet a Phennaeth Adran Rheoleiddio yn amlinellu matrics drafft ar gyfer blaenoriaethu i geisio sicrhau tegwch wrth ystyried dyfodol gwasanaethau cludiant cyhoeddus yng ngwyneb pwysau ariannol ar y gwasanaethau hynny.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar yr elfennau o fewn y matrics a'r pwysau rhyngddynt |
| Argymhellion<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor Craffu yr adroddiad gan bwysleisio'r materion a ganlyn;<br>i. Derbyn y broses gan ystyried y darlun, y pwrpas a'r rhesymeg wrth ddatblygu a gweithredu'r matrics<br>ii. Y dylai cynghorwyr lleol gynnal grwpiau trafod lleol gyda chymunedau i'w hysbysu o'r newidiadau ac i flaenoriaethu anghenion cludiant y gymuned honno. |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Datblygu matrics blaenoriaethu sydd yn ddealladwy a rhesymol wrth wynebu penderfyniadau anodd am ddyfodol rhai gwasanaethau i'r dyfodol |

| CP5. Balchder Bangor |
| --- |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Derbyniwyd adroddiad cynnydd gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Roberts ar y pryd, ar weithredu ar gymhellion yr Ymchwiliad Craffu Balchder Bangor, a oedd yn cydnabod nad oedd rhai o'r argymhellion wedi eu gweithredu |
| Argymhellion<br><br>Gofyn am adroddiad cynnydd gan ganiatau digon o amser i gynnal trafodaethau gyda'r gymuned a rhoi'r cyfle i'r sefyllfa aeddfedu |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Cynnydd ar ddatblygiadau penodol yn ardal Bangor ac eglurder ar y graddau y gellir ymestyn trefniadau o'r fath i ardaloedd eraill ar draws y sir |

**CP6. Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd**

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd, adroddiad blynyddol Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG), a rhoddwyd sylw penodol i'r ffactorau canlynol:-

- Yr angen i wella trefniadau gwybodaeth CCG ynglŷn a gwaith wedi ei gwblhau, ac yn benodol, bod angen gwella a chau'r cylch ymholiad yn llawn wrth weithredu'r Protocol Aelodau Etholedig
- Y ffaith bod y nifer stoc oedd yn cydymffurfio a Safon Ansawdd Tai Cymru yn ol yr elfen ar 31 Mawrth, 2014 yn ganmoladwy iawn.
- Y trefniadau ar gyfer monitro recriwtio a chyflogi is-gontractwyr lleol
- Arafwch posib wrth waredu tai gwag sydd, dros amser, yn creu effaith ar dai cyfagos a'r gymuned
- Pwysigrwydd cyfleu unrhyw bryderon sydd gan aelodau am waith CCG i'r cyfarfodydd chwarterol gyda chynrychiolwyr y Cyngor er mwyn ceisio datrusiad buan

Rhoddwyd sylw hefyd, ar yr un pryd i waith y Tim Opsiynau Tai oedd yn adrodd bod 98% o'r unigolion sy'n cael eu cartrefu gysylltiad lleol a Gwynedd a bod 74% efo cysylltiad â'r gymuned (ward) lle roeddynt yn derbyn eiddo gyda 12% yn ychwanegol gyda chysylltiad â chymuned ward gyfagos.

Argymhellion

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan bwysleisio'r materion a ganlyn:-
a) pwysigrwydd casglu gwybodaeth am angen lleol fyddai wedyn yn arwain at gynlluniau datblygu tai i gyfarch yr angen (cytunwyd ceisio gwybodaeth am hynny i'r cyfarfod paratoi nesaf).
b) y dylid gwella trefniadau holl gymdeithasau tai i hysbysebu eiddo gwag yn lleol.
c) ceisio gwybodaeth gymharol o siroedd eraill ar y nifer o osodiadau i bobl leol er mwyn tawelu neu gadarnhau pryderon aelodau am y nifer o bobl o'r tu allan i ardaloedd sy'n derbyn eiddo o dan y system bwyntiau.

Effaith Disgwyliedig

Trefniadau i sicrhau rheolaeth effeithiol o stoc tai Cartrefi Cymunedol Gwynedd er budd pobl leol

| **CP7. Cynllun Gwarchod yr Arfordir (Gorllewin Cymru)** |
| --- |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Greg Guthrie o Gwmni Royal Haskoning, awdur Cynllun Traethlin Gorllewin Cymru a oedd yn asesu'r effaith ar gymunedau'r sir petai lefel y mor yn debygol o godi 50 – 150m oherwydd newidiadau i'r hinsawdd.<br><br>Heriwyd trefniadau'r Cyngor i ymateb i'r adroddiad ac, yn benodol, y gwaith ymgysylltu a thrafod sydd wedi bod yn digwydd gyda chymunedau sydd dan fygythiad. |
| Argymhellion<br><br>Nodwyd y pwyntiau a ganlyn er sylw'r Aelod Cabinet a Llywodraeth Cymru:-<br>• Bod angen cynllun yn ei le a bod ymateb Cyngor Gwynedd i'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus a bod cynnwys y cymunedau mewn unrhyw drafodaethau yn allweddol<br>• Dylid canmol bod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal, ond mae angen sicrhau bod hyn yn parhau<br>• Bod y sgwrs genedlaethol yn araf ac yn creu anawsterau i'r gymuned. O ganlyniad, dylid anfon neges at y Gweinidog yn amlygu'r pryderon gan bwyso ymateb ac eglurder buan |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Gwelliant yn nhrefniadau'r Cyngor i gynorthwyo cymunedau i baratoi ar gyfer bygythiadau posib yn sgil newid hinsawdd a chodi yn lefel y mor. |

| **CP8. Monitro a Gorfodaeth Safleoedd Carafanau** |
| --- |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Derbyniwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet a Phennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ar drefniadau'r gwasanaeth ar gyfer monitro a gorfodaeth ar safleoedd carafannau |
| Argymhellion<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor Craffu yr adroddiad fel un oedd yn rhoi darlun gonest o'r sefyllfa a derbyn y gwaith ar y gwaelodlin gan bwysleisio'r materion a ganlyn;<br>i) Dylid annog aelodau i ddod a gwybodaeth allweddol i sylw'r adran<br>ii) Cydweithio gydag adrannau eraill i wella lefel gwybodaeth<br>iii) Cadw llygad ar y posibilrwydd o godi incwm i ariannu'r gwasanaeth i'r dyfodol os yw deddfwriaeth yn caniatáu<br>iv) Er pwysigrwydd y gwaith, derbyn bod elfennau rhagweithiol yn ddewisol ac felly yn opsiwn fydd yn gorfod cael ei ystyried ar gyfer cyflawni arbedion |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Safon gwasanaeth cyson ar gyfer monitro a gorfodaeth carafanau ar draws y sir |

| **CP9. Y Gyfundrefn Parcio yng Ngwynedd** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd ar opsiynau oedd dan sylw ar gyfer cynlluniau newydd ar gyfer cyfundrefn parcio i'r sir |
| Argymhellion<br><br>Argymhellwyd i'r Aelod Cabinet ei fod yn diwygio'r cynigion i roi sylw i'r pwyntiau a ganlyn:-<br>• Bod angen annog cydweithio gweithredol gyda chymunedau lleol ar reolaeth meysydd parcio<br>• Y dylid craffu nifer o feysydd parcio am ddim yn lleol wedi trafod y mater gydag aelodau lleol<br>• Croesawu'r syniad o godi tâl am barcio mewn llecynnau bathodynnau glas ond bod yn rhaid sicrhau bod unrhyw incwm yn cael ei ddefnyddio i wella'r cyfleusterau i ddefnyddwyr<br>• Y dylai'r Cabinet, pan yn ystyried y cynigion ffurfiol, dderbyn gwybodaeth gymharol, yn arbennig o gynghorau cyfagos |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Cynorthwyo i sefydlu cyfundrefn parcio cynaliadwy i'r dyfodol |

| **CP10. Pont Briwet** |
|---|
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Er nad oedd y mater ar raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn, galwyd y mater i fewn i'r pwyllgor yn sgil pryderon yn lleol am arafwch yn cwblhau'r gwaith ar y bont newydd ac effaith yr oedi hynny ar fywyd economaidd a chymdeithasol cymunedau'r ardal |
| Argymhellion<br><br>Mynegodd y Pwyllgor Craffu rai pryderon (fel yr oedi gyda'r cynllun a'i effaith ar y gymuned leol, pwy fyddai'n ysgwyddo costau ychwanegol yn sgil yr oedi a gwendidau mewn trefniadau cyfathrebu) a gafodd ei rhannu wedyn gyda'r Pwyllgor Archwilio, a fu'n cwblhau gwaith penodol ar y cynllun, gan dynnu sylw penodol at y gwaith i reoli risgiau o fewn y cynllun ac amserlen y cynllun |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Disgwylid gweld gwelliant yn y trefniadau cyfathrebu ynglyn â'r cynllun a sicrwydd o degwch yn y trefniadau ar gyfer ysgwyddo unrhyw gostau ychwnagol |

| **CP11. Y Strategaeth Wastraff** |
| --- |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor Craffu alw i fewn benderfyniad y Cabinet i symud i drefniadau casglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos fel rhan o strategaeth wastraff ac ail-gylchu'r Cyngor, cyn iddo gael ei weithredu. Golygodd hynny oedi am ychydig cyn cyflwyno'r drefn.<br><br>O'i graffu unwaith (ym Mai 2014) galwyd y mater yn ôl am graffu pellach wedi i'r drefn gael ei dreialu (gweler isod) |
| Argymhellion<br><br>Ar ôl oedi gweithredu penderfyniad y Cabinet ym Mai 2014, penderfynodd y Pwyllgor Craffu graffu effaith cyflwyno'r newidiadau yn ardal Dwyfor cyn i'r trefniadau gael eu hymestyn i weddill y sir<br><br>Wedi derbyn adroddiad a chyflwyniad manwl ar weithredu'r trefniadau yn Nwyfor, yn Chwefror, 2015, penderfynodd y pwyllgor:-<br><br>a. Cyflwyno llongyfarchiadau'r Pwyllgor i'r Adran ac i bobl Dwyfor ar y llwyddiant sydd wedi ei weld wrth gyflwyno'r trefniadau newydd<br>b. Croesawu'r meysydd lle'r oedd yr Adran yn bwriadu eu gwella - cyflwyno cart-gylchu ynghynt, os yn bosib, addasu trefniadau'r Nadolig a Gŵyl San Steffan ac amlygu negeseuon o ddiolch i bobl Dwyfor<br>c. Awgrymu gwelliannau pellach trwy hyfforddi gweithlu i wella taclusrwydd; annog symud ymlaen i ddatblygu ailgylchu mewn biniau ar y stryd a gwastraff masnachol; awyddus gweld syniadau creadigol yn cael eu datblygu i sefyllfaoedd mewn fflatiau, pwyntiau cymunedol / gwledig a gwyliau'r Haf.<br>ch. Gofyn i'r Aelod Cabinet lythyru Llywodraeth Cymru ynglŷn a safbwynt y Pwyllgor ar bacedu.<br>d. Gwahodd yr Aelod Cabinet yn ol i adrodd ar weithredu newidiadau i gasgliadau gwastraff gweddilliol ym Meirionnydd gan adrodd os yw'r gwelliannau a'r arbedion wedi eu gwireddu |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Gwelliant pellach yn nhrefniadau casglu gwastraff y Cyngor, gwelliant yn y cyfraddau ail-gylchu a lleihad yn y costau tra'n cyfarch y pryderon ymarferol sydd yn codi mewn cymunedau o weithredu'r trefniadau casglu newydd |

| **CP12. Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn)** |
| --- |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Derbyniwyd adroddiad gan Reolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd yn unol ag adrannau 19 ac 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.<br><br>Rhoddwyd sylw penodol i:<br>• Gynnydd a welwyd mewn troseddau rhyw<br>• Rhai gwendidau posib yn y trefniadau adrodd :-<br>  ➢ angen adrodd ar droseddau o ddifrod a llosgi bwriadol fel dau fater gwahanol<br>  ➢ y ffaith bod "cyber crime" yn cael ei adrodd ar hyn o bryd o dan "aflonyddwch heb drais"<br>• pwysigrwydd cydweithio gyda chymunedau lleol ar ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Craffwyr. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Cynnydd pellach yn ymwybyddiaeth y Craffwyr o waith a phwrpas Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd. |

| **CP13. Maes Parcio Llyn Bach, Porthmadog** |
| --- |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Ystyriwyd cais gan yr Aelod Lleol a gefnogwyd gan dri aelod o'r pwyllgor i alw i fewn benderfyniad gan yr Aelod Cabinet (Rheoleiddio), y Cynghorydd Dafydd Meurig, i waredu Maes Parcio Llyn Bach ym Morthmadog i Gwmni Rheilffordd Ffestiniog. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Craffu gydnabod pryderon yr aelodau lleol a gofyn i'r Aelod Cabinet oedi gweithredu am y tro, fel bod cyfle i'r aelod lleol a'r swyddogion ymgysylltu â'r gymuned ac ystyried unrhyw opsiynau eraill am y datblygiad. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Gwell ymgysylltu gyda'r gymuned leol ar benderfyniad i waredu eiddo penodol. |

| **CP14. Diweddariad ar yr Adolygiad Hamdden** |
| --- |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet (Hamdden) yn diweddaru'r pwyllgor ar y sefyllfa o ran yr Adolygiad Hamdden, a oedd bellach yn cael ei ystyried fel rhan o becyn o arbedion effeithlonrwydd o £1.05m y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth ei wynebu.<br><br>Rhoddwyd sylw penodol i'r angen i ganfod datrysiadau addas i gymunedau lleol (yn hytrach nag un model cyffredin ar draws y sir) ond ceisio sefyllfa lle y mae graddfeydd adennill canolfannau unigol yn gwella. |
| Argymhellion<br><br>Dim argymhellion penodol i'r Aelod Cabinet ond edrych ymlaen at gydweithio yn lleol gyda chynlluniau busnes y Canolfannau Hamdden unigol |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Newidiadau i drefniadau hamdden sydd yn sicrhau atebion lleol sydd yn cynnig gwasanaeth mwy cynaliadwy i'r dyfodol |